

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/2585/17

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

1 Medi 2017

Annwyl Simon,

Diolch i chi am waith craffu'ch Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 a'r adroddiad a ddaeth yn ei sgil.

Amgaeaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhelliad a wnaed.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi yn y dyfodol.

In gywir,

Mark.

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2017-18.

23 Awst 2017

Y Gyllideb Atodol hon oedd y cyfle cyntaf i ddiwygio cynlluniau cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2016 ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 10 Ionawr 2017.

Natur weinyddol oedd i'r gyllideb yn bennaf a bu iddo reoleiddio nifer bach o ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn, symiau sy'n cael eu cyfnewid rhwng adnoddau a chyfalaf ac adnoddau a throsglwyddiadau rhwng portffolios. Roedd yn cynnwys addasiadau i Gyllideb DEL Cymru i adlewyrchu trosglwyddiadau a symiau canlyniadol a dderbyniwyd yng nghyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth 2017, ac roedd hefyd yn adlewyrchu newidiadau yn rhagolygon Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am y gwaith a wnaed ac rwyf yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth â'r Aelodau yn y dyfodol.

Ceir ymateb manwl i argymhelliad yr adroddiad isod:

Argymhelliad

~~Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r fasnachfaint rheilffyrdd newydd, yn sicrhau bod contractau ar gyfer gwella gwasanaethau'n cael eu drafftio'n dynn i osod cyfrifoldeb ar y cwmni i ariannu gwelliannau megis wi-fi.~~

Ymateb: Derbyn

Mae Trafnidiaeth Cymru'n defnyddio proses gaffael gystadleuol i nodi'r partner sydd orau gennym i weithredu'r fasnachfaint nesaf. Nod deialog gystadleuol yw datblygu un neu ragor o atebion amgen addas sy'n gallu bodloni ein

gofynion, a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni gan ein bod yn ceisio atebion arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Mae'r broses gystadleuol yn gyrru gwerth am arian mewn prosiectau caffael seilwaith cymhleth a gwerth uchel. Mae'r broses yn cadw cystadleuaeth, yn darparu atebion gwell gyda bargaen well i'r sector cyhoeddus, ac yn darparu rheolaeth well dros newidiadau mewn cwrpas a chodiadau mewn cost a welir yn aml wrth ddarparu prosiectau cymhleth.

Rydym wedi datblygu meini prawf gwerthuso a methodoleg sgorio sydd wedi'i theilwra i'r caffael cymhleth sy'n ymateb i'n blaenoriaethau.

Y goblygiadau ariannol: Dim.

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol